# Ysgol Treganna

Cylchlythyr wythnosol



## Wythnos yma

Mae wedi bod yn hyfryd wythnos yma i groesawu chi fel rhieni i'r ysgol ar gyfer y sesiynau "Cwrdd â'r Athro". Cofiwch i gysylltu os hoffech wybodaeth bellach neu os i chi am drafod eich plentyn. Fel y nodwyd yn "Dyddiadau Pwysig Tymor yr Hydref" mae nosweithiau rhieni'r tymor yma ar nos Fawrth y 4ydd o Dachwedd a nos Fercher y 5ed o Dachwedd.

### Clybiau

Er gwybodaeth bydd clybiau allgyrsiol yr ysgol yn cychwyn o ddydd Llun y 29ain o Fedi. Byddwn yn danfon amserlen clybiau'r tymor atoch chi yng nghylchlythyr wythnos nesaf. Mae ein clybiau yn agored i bawb.

### Cyfarfod i rieni newydd "Croeso i Dreganna"

Diolch yn fawr i'r GRhA am drefnu digwyddiad cymdeithasol gwych yn neuadd fach yr ysgol neithiwr. Roedd yn hyfryd croesawu gwynebau newydd a gwynebau cyfarwydd ac edrychwn ymlaen yn fawr at gydweithio gyda chi a'ch plentyn. Cofiwch am y noson Bingo sydd wedi ei drefnu yn neuadd yr ysgol ar nos Wener yr 2il o Hydref. Gweler y poster sydd wedi ei atodi yn y cylchlythyr sydd yn cynnwys linc er mwyn archebu tocynnau.Croeso mawr i bawb!

### Bws Beic

Diolch hefyd i bawb wnaeth gefnogi Bws Beic cyntaf y tymor. Roedd yn hyfryd gweld cymaint o rieni, disgyblion ac athrawon yn cefnogi. Cofiwch fod croeso mawr i bawb ymuno gyda'r Bws Beic.

## Calendr

**Colorfoto**

**23.9.25**
**Lluniau unigol. Meithrin i flwyddyn 6**

**Llangrannog Blwyddyn 6**

**24/9/25 - 26/9/25**

# Gwersi Canu

Rydym yn bwriadu cynnig gwersi canu i ddisgyblion yr ysgol. Mae Mrs Angela Morris Parry, athrawes ganu profiadol ar gael i gynnal gwersi wythnosol yn yr ysgol.

Mae'r gwersi yn cael eu cynnig i ddisgyblion blwyddyn 3 i flwyddyn 6.

Gweler y poster sydd wedi ei atodi i'r cylchlythyr.

Os oes gennych ddiddordeb, mae cod qr ar y poster isod sy'n eich galluogi i arwyddo i fyny ar gyfer cael gwersi.

Yn ogystal, mae modd cysylltu gyda cfmusiceducation@cardiff,gov.uk os oes gennych gwestiynau neu am wybodaeth bellach.

# Cwlwm Rhieni Ysgol Treganna
# Cymraeg yn 1af

- Dewch i gyfrannu i Gwlwm Rhieni Treganna
- Cyfle bob tymor i chi gyfrannu a thrafod prosiectau o fewn yr ysgol.
- Dewch am sgwrs, i glywed beth sy'n mynd ymlaen ac i gefnogi Cymuned yr Ysgol
- Thema Cwlwm Rhieni Tymor yr Hydref fydd Cymraeg yn 1af (prosiect newydd i annog a dathlu Cymreictod yr ysgol)
- Dydd Mawrth, Tachwedd y 18fed am 2.30 yn Nyth yr ysgol

# Grant Hanfodion

Er bod holl ddisgyblion oed cynradd bellach yn cael yr hawl i brydau ysgol am ddim, gallai fod mwy o help ariannol ar gael i chi trwy'r Grant Hanfodion Ysgol.

Diben y Grant Hanfodion Ysgol yw rhoi cymorth ariannol i deuluoedd ar incwm isel i brynu:

- gwisg ysgol,
- dillad chwaraeon,
- gwisg ar gyfer gweithgareddau cyfoethogi, fel chwaraeon cymunedol
- bagiau ysgol, a
- deunydd ysgrifennu.

Mae cyllid o hyd at £125 ar gael i bob plentyn cymwys (o'r Derbyn i Bl11), ac eithrio'r rhai ym Mlwyddyn 7 sydd â hawl i £200.

O wneud cais a derbyn yr hawl at y Grant, byddwch hefyd yn sicrhau cyllid ychwanegol i'r ysgol er mwyn cefnogi dysgwyr difreintiedig.

Darllenwch mwy am y Grant gan ddilyn y ddolen isod.
Grant Hanfodion Ysgol

# Patrwm Iaith

**Wythnos nesaf, dyma batrwm iaith yr wythnos**
Sut wyt ti?/ Sut ydych chi?
Iawn diolch/ Da iawn diolch
**Her**
Rydw i ar ben y byd heddiw.
Rydyn ni'n hapus fel y gog heddiw.
Rydw i wedi cael llond bol heddiw.

**Testun trafod yr wythnos**
Fy hoff gemau i chwarae yn y car yw…

**Cân yr wythnos**
Y Cledrau - Cerdda fi i'r traeth

**Idiom yr wythnos**
Rhaid cropian cyn cerdded


NOSON
BINGO
NIGHT
Noson bingo gyda gwobrau gwych, bwyd blasus a digon o hwyl – dewch draw i gefnogi'r ysgol!
Bingo night with great prizes, tasty food and plenty of fun – come along and support the school!
03 HYD | OCT - 7:00 PM
Neuadd Ysgol Treganna School Hall
£8 Y TOCYN GAN GYNNWYS DIOD
£8 A TICKET, WITH A DRINK INCLUDED
PRYNWCH EICH TOCYNNAU YMA
BUY YOUR TICKETS HERE






## Cerdd CF Music Education
## Vocal Lessons Years 3 – 13

SCAN ME

Do you like to sing? Thinking of performing in the Eisteddfod, School show, or preparing for an exam?
Would you like to learn about how you could develop this further?
Then enrol for vocal lessons with **Angela Morris Parry** in school by signing-up through the QR Code.

## Cerdd CF Music Education
## Gwersi Canu Blynyddoedd 3 – 13

Ydych chi'n hoffi canu? Meddwl am berfformio yn yr Eisteddfod, Sioe ysgol neu paratoi am arholiad,
Hoffech chi ddysgu am sut y gallech chi ddatblygu hyn ymhellach?
Cofrestrwch ar gyfer gwersi canu gydag **Angela Morris-Parry** yn yr ysgol gan gofrestru drwy'r Cod QR.

Angela is a Singing Teacher with many years experience and has gained considerable success with her pupils including prizes at the Urdd and National Eisteddfodau, Winner of 'The Voice Kids', Judges Houses on 'X Factor' and a Semi-Finalist on 'Britain's Got Talent'. In the world of Classical and Musical Theatre, students have gone on to perform in the West End, Covent Garden, 'Cardiff Singer of the World', 'Wigmore Hall' and Carnegie Hall in New York. Whether you want a career in Singing or just want to sing for fun then sign up for lessons by using the QR Code.

Mae Angela yn Athrawes Canu gyda blynyddoedd lawer o brofiad ac mae wedi cael llwyddiant sylweddol gyda'i disgyblion gan gynnwys gwobrau yn yr Urdd a'r Genedlaethol, Enillydd 'The Voice Kids', Tai Beirniaid ar 'X Factor' ac yn Rownd Gynderfynol ar 'Britain's Got Talent'. Ym myd Theatr Glasurol a Cherddorol, mae myfyrwyr wedi mynd ymlaen i berfformio yn y West End, Covent Garden, 'Canwr y Byd Caerdydd', 'Neuadd Wigmore' a Neuadd Carnegie yn Efrog Newydd. P'un a ydych chi eisiau gyrfa mewn Canu neu ddim ond eisiau canu er mwyn hwyl, yna cofrestrwch am wersi trwy ddefnyddio'r Cod QR.

Cardiff and Vale Music Education / Addysg Gerdd Caerdydd A'r Fro

@cerddcf

@cerddcf